E. J. Jones

1.28

# SERCH-GERDD,

A gyfansoddwyd ar daer ddymuniad y sawl y perthynai iddynt, ac yn neillduawl y Claf o Gariad.

Gan **DEWI BEVAN JONES.**
(*DEWI ELVED*).

Mesur—"Dyfyrwch Tyssul Sant."

Ow beth a wnaf! picellau serch
Sy'n f'anerch dan fy mron;
O gariad a'i archollion erch
Wyf glaf y fynyd hon;
Ni feddaf gysur o un gradd,
Ond tori amod sy'n fy lladd.

Ow! J——t fwyn ni enwaf chwi,
Rhy wylaidd wyf i hyn;
Anffyddlon troisoch i myfi
Os soniaf mae'n beth syn;
Pwy allsai gredu gwnaethech chwi,
Fyth tori amod a myfi.

Ai drysu wnaethoch ar eich taith
Dros eigion llaith y llyn?
A wellodd cariad mor ddigraith,
Heb fod yn faith fel hyn?
Ai peth dibwys i'ch golwg chwi,
Oedd tori amod a myfi?

Mor wir yr hen ddiareb gynt,
(Deallwyf hyny 'nawr,)
Bod "meddwl geneth fel y gwynt,"
Try ddeng waith yn yr awr,
Mae hyn yn amlwg ynoch chwi
Drwy dori amod a myfi.

Ail-Argraffiad. Cyhoeddedig dros Gymdeithas Llen Dyffryn Teifi gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul. 1905.

Er addaw'n deg o fywiol chwant,
  Deniadau'r amser gynt;
Er addunedau fwy na chant
  Hwy aethant efo'r gwynt;
Aeth *cof* yn *ddim*, (beth dd'wedwch chwi?)
  Am dori amod a myfi.

Ai gwir i mi roi geiriau *mel*,
  Neu *glipiad* llygad llon;
Er gosod cariad o dan sel,
  I lynu dan eich bron,
Ei fagu'ch hunan wnaethoch chwi,
  A thori amod a myfi.

Tra llidus yw trallodau serch,
  Chwi wyddoch hyny'n dda,
Ni flinwyd un anwylaf ferch,
  Yn ddyfnach gan ei blâ;
Mae'n rhaid taw drysu wnaethoch chwi,
  Cyn tori amod a myfi.

Os teimlais gynt wrth wel'd eich gwedd,
  Fy *anadl* yn byrhau,
Os *gwrid* eich wyneb nodai hedd,
  Pan fyddwn yn neshau,
Rhyfeddod yw erioed i chwi,
  I dori amod a myfi.

Wrth fynych lwybro daear gron,
  'R'ych 'nawr yn cofio'r oed;
Y teimlech *iasau* dan eich bron,
  Pan welech *ol* fy nhroed;
Neud rhyfedd yw erioed i chwi,
  I dori ammod a myfi.

Mae'n dyst o'ch serch y Glaslwyn draw,
  Ar war y Ffynon Oer;
Lle cyd eisteddem law yn llaw,
  Wrth wawl arianaidd loer;
Cynhyrfion serch wnae'n gruddiau'n lli,
  Er tori ammod a myfi.

'Doedd awr ond orig fer ei hynt,
  Pan gwrddem yn y cudd;
A hirddydd haf a'i heibio'n gynt,
  Na gwenol fain y gwydd;
A serch yn chware ar eich grudd,
  Er tori ammod a mi'n brudd.

X 20 5 1995 1 7

I'm meddwl rhed eich delw hardd,
A ddyg fy mryd yn llwyr,
Yn arogl per rosynau'r ardd,
Wrth rodio'n min yr hwyr;
Defnynai hedd yn ddafnau fyrdd,
I'n calon dan y lawryf gwyrdd.

Pereiddiol rydiau *Clettwr** fwyn,
A seinau'r cerddgar lu,
Yn telynori'r deiliawg lwyn,
Sy'n lleddfu'r galon gu;
Fy hiraeth saif am hardd ei phryd,
Tra peru 'mywyd yn y byd.

Fel tawdd yr haul y llwydrew ffwrdd,
Yn fuan o le serth,
Fel mae yr awel wan ddidwrdd,
Yn deifio blodau'r berth;
'Run modd *pe cawn*, anghofiwn chwi,
Am dori ammod a myfi.

Os ceisiodd cariad ollwng saeth,
I glwyfo mynwes serth;
Nid wyf er hyn "un gronyn gwaeth,"
Er clwyfo'r llanc o'r *North*,
Os deil y clwy' gwna les i chwi,
Er tori ammod a myfi.

Mae'n rhwym y 'nawr eich calon brudd,
Wrth arall, Ow! pa fodd?
'Rwyf fi er hyn a'm dwylaw'n rhydd,
Yn hollol wrth fy modd;
"Dwy'n prisio'r pin," rhof her i chwi,
Er tori ammod a myfi.

Os tir Americ aeth a'ch fryd,
(Am hyn ni roddaf sen,)
'Rwyf fi yn byw, a gwyn fy myd,
Rhwng broydd Cymru wen;
Heb bryder merch roi i mi glwy',
Na thori ammod a mi mwy.

Hen wlad fy hun yn nyddiau f'oes,
A geneth dduwiol fryd:—
I chwi boed heddwch yn ddiloes,
Tra byddoch yn y byd;
Boed llwydd, a hedd, Llaw Dde i chwi,
Er tori ammod a myfi.

---

* Afonig o'r enw yn mhlwyf Llandyssul.

## Y CLAF O GARIAD.

O gwrando'r ferch lygadlon,
  Un hardd o ffriw, y seren syw,
Hynodawl yw f'och'neidion,
  Mae clwyf i'm calon, clyw.
Rwyf beunydd yn ymboeni,
  Heb fynyd fwyn, yn fawr fy nghwyn,
O galon wyf yn gwelwi,
  Os sylwi gan dy swyn ;
Y ddynes lefn, os troi dy gefn,
  Mi af o dristwch yn ddidrefn,—
Os gwrando ar ffug *hudoliaeth,*
  Un pell ei gwedd rydd i ti hedd,
Fe'm rhoddir i gan hiraeth
  A'i bariaeth yn y bedd ;—
Y fun wiw fad, os mam neu dad,
  Sydd yn mroi i wneyd fy mrad,
A gosod rh'om ysgariad ;—
  Dyoddef sen, wna'r eneth wen,
Os bydd yn bur ei bwriad ;
  Bydd cariad byth yn ben.

Wrth chwilio, Ow, gochelwch,
  Y blodyn hardd, sy' i'w gael mewn gardd,
Ac wele, mewn anialwch,
  Yn aml y lili a dardd,
Cadd llawer merch gariadus,
  Ei byd yn boen, heb awr o hoen,
Drwy wenau hudoliaethus
  Blaidd rheibus dan wisg oen.
Yr eneth gain, a swynawl sain,
  A gwylia draw rhag gwely drain,
A bywyd o orthrymder ;
  A chwilia'n chweg, am fron ddifreg,
Mae'n fendith byd a'i fwynder,
  Y mab o dymmer deg,
Y ferch ddinam cais hwn bob cam,
  Mae'n well na mwynder tad na mam,
Os byddant am dy rwystro,
  Cei lon'd dy fryd, a hedd o hyd,
Heb ofid i dy flino,
  Tra fyddo, gwyn dy fyd.

[*Llandyssul.*] ELVED.